EISTEDDFOD GARNDOLBENMAEN A'R CYLCH 2026

Cynhaliwyd Eisteddfod Garndolbenmaen a'r Cylch yn Neuadd y Pentref, dydd Sadwrn, Ionawr 31ain.

Cafwyd dau gyfarfod llewyrchus a nifer dda o gystadleuwyr. Braf oedd cael cefnogaeth cystadleuwyr lleol gan gynnwys Ysgol Garndolbenmaen, Ysgol y Gorlan, Tremadog, Côr Eifionydd, yn ogystal â rhai o'r tu allan i'r ardal.

Y beirniaid oedd: Cerdd a Cherdd Dant – Helen Medi Williams, Rhyd y Felin; Adrodd/Llefaru– Medwen Pari, Aberdaron; Llên a Barddoniaeth – Cedron Sion, Porthmadog; Arlunio – Eirian, Pwlldefaid. Y cyfeilydd oedd Tudur P. Jones, Tywyn, Meirionnydd. Yr arweinyddion oedd Nia Mai Evans a Bethan Dobson.

Swyddogion y pwyllgor yw: Llywydd – Gwen Owen; Is-lywydd – Nerys Ll. Thomas; Ysgrifennydd – Esyllt Williams; Is-ysgrifennydd – Bethan Dobson; Trysorydd – Eirian Evans; Is-drysorydd – Carolyn Jones.

Llywydd yr Eisteddfod eleni oedd Anna Mair Parry. Yn wreiddiol o fferm Gwindy, Llecheiddior, a bellach yn byw yn Llundain, yn gweithio i'r Swyddfa Dramor ar ymdrechion rhyngwladol i hyrwyddo hawliau merched a lleihau lefelau trais yn erbyn merched o gwmpas y byd. Braf oedd clywed am hanes dylanwad yr ardal enedigol ar Anna. Pleser oedd ei chroesawu yn ôl i Eisteddfod Garndolbenmaen.

Braf hefyd oedd cael parti canu o Ysgol Garndolbenmaen yn cystadlu dan hyfforddiant Mrs Gwenan Roberts, a pharti canu ac adrodd o Ysgol y Gorlan dan hyfforddiant Mrs Esyllt Williams a diolch i'r ddwy am eu gwaith.

Enillwyd y wobr arbennig o £25 am yr adroddiad gorau yng nghyfarfod y prynhawn gan Hywyn Euros, Llangybi. Enillwyd y wobr arbennig o £25 yn rhoddedig gan Gôr Meibion Dwyfor am y datganiad gorau yn yr adran gerdd yng nghyfarfod y prynhawn gan Gwern Pugh, Tremadog. Enillwyd y wobr arbennig o £25 yn rhoddedig gan O. Gerallt Jones ac Alun Llwyd am y datganiad gorau yn adran cerdd dant y prynhawn er cof am eu rhieni, Vera a D. G. Jones (Selyf) gan Annes Euros, Llangybi.

Yn ôl yr arfer cynhaliwyd seremoni Tlws yr Ifanc yng nghyfarfod yr hwyr. Dyluniwyd y tlws gan John Parry, Penrhyndeudraeth, a diolch iddo yntau am ei waith cain. Enillydd y tlws oedd Rebecca Rees o Geredigion. Roedd Tlws yr Ifanc a Thocyn Llyfr yn rhoddedig gan Mr E. Griffiths a'r diweddar Mrs. G. Griffiths, Ynys Wen, Cwmystradllyn a Chwmni Peirianneg Sifil Gelli er cof am Tom Richards, Wern, Llanfrothen. Diolchir iddynt ac i bawb a gyfrannodd wobrau ac a gefnogodd yr Eisteddfod mewn unrhyw ffordd.

Cafwyd cyfarfod yr hwyr arbennig iawn, gyda nifer o unigolion yn cymryd rhan, diolch iddynt am eu cefnogaeth i'r Eisteddfod.

Canlyniadau Eisteddfod Garndolbenmaen 2026

Cerddoriaeth

Unawd Meithrin a Derbyn: 1. Mali, Y Ffor; 2 Gruff , Ceidio; 3. Erin, Llangybi

Blwyddyn 1 - 2: 1. Nanw, ; 2. Alaw, Y Ffor; 3. Nansi a Miri, Golan

Blwyddyn 3 - 4: 1. Betw, Ceidio; 2. Leia, Garndolbenmaen; 3. Cain, Golan

Blwyddyn 5 - 6: 1. Eiry; Pentrefelin; 2. Cadi, Golan; 3. Annes Euros, Llangybi

Blwyddyn 7 – 11: 1. Celt ; 2. Llyr

Deuawd dan 16 oed: neb yn cystadlu

Can Werin dan 16 oed: 1. Annes, Llangybi; 2. Celt

Unawd Piano dan 12 oed: 1. Gwern Pugh, Tremadog; 2. Annes Euros, Llangybi

Parti Unsain dan 12 oed: 1. Parti Ysgol Garndolbenmaen, Parti Ysgol y Gorlan

Unawd Offeryn Cerdd dan 16 oed: 1. Hywyn Euros, Llangybi; 2. Annes Euros, Llangybi

3. Gwern Pugh, Tremadog

****

Unwad dan 25: 1. Elain ; 2. Erin Llwyd ; 3. Liam Arfon Jones, Llanaelhaearn a Deio Rhys, Chwilog

Unawd o Sioe Gerdd: 1. Liam, Llanaelhaearn; 2. Elain Iorwerth, Trawsfynydd; 3. Erin Llwyd,

Cân Werin dros 16: 1. Erin Llwyd, ; 2. Elain Iorwerth, Trawsfynydd; 3. Robin Hughes, Nantmor a Robert John, Beaumaris

Unawd Gymraeg o waith Cyfansoddwr Cymreig: 1. Elain Iorwerth; 2. Robin Hughes, Nantmor; 3. Erin Llwyd

Her-unawd : 1. Robin Hughes, Nantmor; 2. Rhys Roberts, Y Ffor

Canu Emyn: 1. Elain Iorwerth, Trawsfynydd, 2. Erin Llwyd ; 3. Robin Hughes, Nantmor

Côr Meibion, Merched neu Gymysg: 1. Cor Eirionydd; 2. Parti Merched Cor Eifionydd

Deuawd dros 16 oed: 1. Ros a Peter

Cerdd Dant

Unawd dan 12: 1. Annes Euros, Chwilog 2. Cadi Jones, Golan; 3. Betw, Ceidio

Unawd 12 – 16: 1. Neb yn cystadlu

Unwad Cerdd Dant dros 16 oed : 1 Elain Iorwerth, Trawsfynydd; 2. Elain Llwyd, ;

<u>Adrodd / Llefaru</u>

Unawd Meithrin a Derbyn: 1. Eluned, Llangybi; 2. Gruff, Ceidion; 3. Mali, Y Ffor

Blwyddyn 1 - 2: 1. Alaw, Y Ffor 2. Nanw, 3. Miri, Golan

Blwyddyn 3 - 4: 1. Betw, Ceidio; 2. Huw, ; 3. Cain, Golan

Blwyddyn 5 - 6: 1. Annes Euros, Llangybi; 2. Gwen,

Blwyddyn 7 – 11: 1. Hywyn Euros, Llangybi; 2. Gwern Pugh, Tremadog; 3. Celt, Llanaelhaearn

Parti Llefaru: 1. Parti Ysgol y Gorlan

****

Perfformio Darn Digrif Agored: 1. Erin Llwyd, ; 2. Rhys Jones, Corwen

Mewn Cymeriad:

Sgen Ti Dalent: Deio Rhys, Chwilog; 2. Erin Llwyd, ; 3. Peter Lane, Mynydd Nefyn, Rhys Jones, Corwen a Robin Hughes, Nantmor

Prif Adroddiad: 1. Owain Rhys, Chwilog; 2. Beca Dwyryd, Porthmadog; Rhys Lloyd ac Erin Llwyd

Adran y Dysgwyr

1. Ros, Chwilog; 2. Peter, Mynydd Nefyn

Llenyddiaeth

Meithrin a Derbyn: 1. Sophie, Ysgol y Gorlan 2. Olwen, Ysgol y Gorlan 3. Llew, Ysgol y Gorlan

Blwyddyn 1 – 2: 1.Osian, Ysgol Borth y Gest 2. Nansi, Ysgol y Gorlan 3. Madryn, Ysgol Borth y Gest

Blwyddyn 3 – 4 1. Mared, Ysgol Borth y Gest 2. Leia, Ysgol Garndolbenmaen 3. Sol, Ysgol Borth y Gest

Blwyddyn 5 – 6 : Annes Euros, Llangybi 2. Eiry, Pentrefelin 3. Gwenartha, Borth y Gest

Blwyddyn 7 – 11: 1.Hywyn Euros, Llangybi 2. Llew, Penryndeudraeth 3. Megan Eleri, Ysgol Dyffryn Nantlle

Englyn:1. John Ffrancon Griffith, Abergele

Telyneg:1.Gaenor Mai Jones, Pontypridd

Limrig: 1. Carwyn Tywyn, Sir Gaerfyrddin

Dan 25 oed ‘Tlws yr Ifanc’: 1.Rebecca Rees, Ceredigion

Arlunio

Meithrin a Derbyn : 1. Juniper, Ysgol Borth y Gest 2. Willow, Ysgol Borth y Gest 3. Erin, Ysgol Llangybi

Blwyddyn 1 – 2: 1. Nansi, Ysgol y Gorlan 2. Sienna, Ysgol Borth y Gest 3. Evelyn, Ysgol y Gorlan

Blwyddyn 3 – 4: 1.Ami, Ysgol Borth y Gest 2. Elin, Ysgol Garndolbenmaen 3. Kai, Ysgol Borth y Gest

Blwyddyn 5 – 6: 1.Eiri, Pentrefelin 2. Gwen Eluned, Penryndeudraeth 3. Nora, Ysgol Borth y Gest

Blwyddyn 7 – 9: 1.Eleri, Ysgol Eifionydd 2. Hywyn Euros, Llangybi 3. Deio Celt, Ysgol Eifionydd